Dyfed Powys Local Resilience Forum thanks communities for playing their part in tackling the current health crisis on the bank holiday weekend

The partners who together form the Dyfed Powys Local Resilience Forum here in Carmarthenshire, Pembrokeshire, Ceredigion and Powys want to pay tribute and sincerely thank our communities and those living and working in the area for their cooperation and support over the Easter bank holiday by heeding the Government legislation to stay home, which in turn protects the NHS and saves lives.
We know how hard it was, and the sacrifices everyone made, especially as the weather was glorious – but the single most important action we can all take currently to stop the infection spreading is to stay at home, and the vast majority did just that.

We normally see an influx of visitors to our many tourist attractions and beauty spots at this time of year – which includes those living in the area, as well as those living elsewhere. But it was evident that footfall at these types of locations was markedly reduced from what we would normally expect, and the number of people who were out and about on the weekend was minimal. This demonstrated that the vast majority of the public were complying with the new legislation and adapting to the new world we find ourselves in – so thank you very much.

We don't underestimate how extraordinary and difficult this new way of living is, but every person in Wales must comply with the new measures introduced by the Welsh Government. And the relevant authorities, including the police and local authorities, have been given the powers to enforce them – including through fines and dispersing gatherings. Unfortunately a small minority did breach the restrictions and 123 fines were issued by the police to those who deliberately flouted the legislation. But through Dyfed-Powys Police's Operation Dovecote, they provided a visible presence on our roads during the weekend, and checked on people's movements to reassure our communities and the vast majority that did comply, as this causes serious concern during this health crisis.

The agencies of the Dyfed Powys Local Resilience Forum have taken a multi-agency coordinated approach to the crisis, and are working together to serve in the best interests of our communities. It is so encouraging and pleasing to see our key workers, volunteers and communities rising to this challenge – and we should all be proud of this response.

We now need to keep up the good work, and it is important that we all continue to follow these measures and promote the message that travel is currently only permitted in line with the strict criteria set out in the new legislation. The Dyfed Powys Local Resilience Forum will continue to work with our communities to navigate our way through this difficult period.

Thank you, on behalf of Dyfed Powys Local Resilience Forum:

- Chief Executive Hywel Dda University Health Board Steve Moore
- Chief Executive Powys Teaching Health Board Carol Shillabeer
- Chief Executive Welsh Ambulance Services NHS Trust Jason Killens
- Assistant Chief Constable Dyfed-Powys Police Peter Roderick
- Chief Executive Carmarthenshire County Council Wendy Walters
- Chief Executive Ceredigion County Council Eifion Evans
- Chief Executive Pembrokeshire County Council Ian Westley
- Chief Executive Powys County Council Dr Caroline Turner
- Chief Fire Officer Mid and West Wales Fire and Rescue Service Chris Davies QFSM

Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys yn diolch i gymunedau am chwarae eu rhan mewn mynd i'r afael â'r argyfwng iechyd presennol dros benwythnos gŵyl y banc

Mae'r partneriaid sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys, eisiau talu teyrnged a diolch o waelod calon i'n cymunedau a'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth dros benwythnos y Pasg drwy wrando ar ddeddfwriaeth y Llywodraeth i aros adref, sydd, yn ei dro, yn amddiffyn y GIG ac yn arbed bywydau.

Gwyddom mor galed ydoedd, a gwyddom am yr ebyrth a wnaethpwyd gan bawb, yn enwedig â'r tywydd mor braf – ond y peth pwysicaf y gall pawb ohonom wneud ar hyn o bryd er mwyn atal yr haint rhag lledaenu yw aros gartref, a dyna a wnaeth y rhan fwyaf ohonoch.

Fel arfer, yr adeg hon o'r flwyddyn, rydyn ni'n gweld mewnlifiad o ymwelwyr i'n llecynnau hardd a'n hatyniadau twristiaeth niferus – sy'n cynnwys y bobl hynny sy'n byw yn yr ardal yn ogystal â'r rhai sy'n byw mewn mannau eraill. Ond yr oedd hi'n amlwg bod nifer yr ymwelwyr â'r mathau hyn o leoliadau yn llai o lawer na'r hyn y byddem fel arfer yn eu disgwyl. Roedd nifer y bobl a oedd allan yn crwydro dros y penwythnos yn fach iawn. Dangosodd hyn fod y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd ac yn addasu i'r byd newydd sydd ohoni – felly diolch yn fawr iawn.

Nid ydym yn tanwerthfawrogi mor anghyffredin ac anodd yw'r ffordd newydd hon o fyw, ond mae'n rhaid i bawb yng Nghymru gydymffurfio â'r mesurau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.
Rhoddwyd pwerau i'r awdurdodau perthnasol, gan gynnwys yr heddlu ac awdurdodau lleol i'w gorfodi – gan gynnwys gwasgaru cynulliadau a chyflwyno dirwyon. Yn anffodus, torrwyd y cyfyngiadau gan leiafrif bach, a chyflwynwyd 123 dirwy gan yr heddlu i'r rhai a oedd yn torri'r ddeddfwriaeth yn fwriadol. Ond trwy Ymgyrch Dovecote Heddlu Dyfed-Powys, darparasant bresenoldeb amlwg ar ein ffyrdd yn ystod y penwythnos, a gwirio symudiadau pobl er mwyn tawelu meddyliau ein cymunedau a'r mwyafrif helaeth a gydymffurfiodd, gan fod hyn yn achosi pryder difrifol yn ystod yr argyfwng iechyd hwn.
Mae asiantaethau Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys wedi cymryd ymagwedd gydlynol amlasiantaeth tuag at yr argyfwng, ac maent yn cydweithio er mwyn gwasanaethu er lles ein cymunedau. Mae'n galonogol ac yn ddymunol iawn gweld ein gweithwyr allweddol, ein gwirfoddolwyr a'n cymunedau'n ymateb i'r her hon – a dylai pawb ohonom fod yn falch o'r ymateb hwn.

Mae angen yn awr inni barhau â'r gwaith da, ac mae'n bwysig ein bod i gyd yn dal ati i ddilyn y mesurau hyn a hyrwyddo'r neges fod teithio ond yn cael ei ganiatáu yn unol â'r meini prawf llym a nodir yn y ddeddfwriaeth newydd ar hyn o bryd. Bydd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys yn parhau i weithio gyda'n cymunedau er mwyn llywio'n ffordd drwy'r cyfnod anodd hwn.

Diolch, ar ran Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys:

- Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Steve Moore
- Prif Weithredwr Bwrdd Addysgu Iechyd Powys Carol Shillabeer
- Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Jason Killens
- Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dyfed-Powys Peter Roderick
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Gaerfyrddin Wendy Walters
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion Eifion Evans
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Benfro Ian Westley
- Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys Dr Caroline Turner
- Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Chris Davies QFSM